**POLISI CWRICWLWM**

**Ysgol Syr Hugh Owen**

Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Dyddiad Cymeradwyo: 16/01/2026

Dyddiad Adolygu: 16/01/2027


**Cyflwyniad:**

Cwricwlwm yr ysgol yw popeth mae dysgwyr yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben. Mae'n fwy na'r hyn rydyn ni'n ei addysgu yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sut rydyn ni'n ei addysgu ac, yn allweddol, pam ydyn ni'n ei addysgu.
Yn Ysgol Syr Hugh Owen, mae datblygu'r cwricwlwm yn wraidd i'n hymdrechion i godi safonau i bawb, mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n galluogi'r disgyblion i fyw a ffynnu'n lleol. Dylai'r cwricwlwm hybu parch at farn disgyblion unigol, ennyn hyder yr holl randdeiliaid a bod yn destun balchder i'r gymuned leol.

**Bwriad:**

Ein bwriad yn Ysgol Syr Hugh Owen yw siapio cwricwlwm disgybl-ganolog, sydd yn eang a chytbwys er mwyn creu:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu oes
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn y neu bywyd a'u gwaith
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas




Ein bwriad hefyd yw i annog diwylliant uchelgeisiol o gyflawniad fydd yn galluogi disgyblion i drosglwyddo yn llwyddiannus o flwyddyn 7-11ac yna ymlaen i'r chweched dosbarth, addysg bellach neu fyd gwaith drwy:

- sicrhau darpariaeth berthnasol, heriol a diddorol sy'n cynnig mwynhad i'r holl ddysgwyr
- sicrhau cydbwysedd rhwng sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau.
- gynllunio llwybrau dysgu hyblyg a theilwra'r ddarpariaeth drwy gynnig ymyrraethau, cwricwlm amgen neu drefniadau pwrpasol eraill i fodloni angenion yr unigolyn.
- alluogi pawb i brofi llwyddiant mewn ystod eang o feysydd academaidd, creadigol, chwaraeon a galwedigaethol.

- gynnig cyfleoedd i ddatblygu ystod eang o sgiliau hanfodol, megis llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, llythrennedd ariannol, meddwl yn feirniadol a chreadigrwydd.
- gynnig ystod eang ac addas o ddewisiadau opsiynol ym mlynyddoedd 10-13.
- trwy gymell a gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob unigolyn (yn cynnwys disgyblion gyda cyrhaeddiad blaenorol isel, MATh, PYD ac ADY) i gyrraedd ei lawn botensial, gyda chyfleon i hunanwerthuso yn rheolaidd a chynllunio ar gyfer gwneud cynnydd pellach.
- gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion mewn amgylchedd gynhwysol.
- feithrin agweddau cadarnhaol ym mhob unigolyn fel y gall addasu'n hyblyg i syniadau a sefyllfaoedd newydd
- ymchwilio, rhwydweithio ac arbrofi er mwyn sicrhau y bydd profiadau dysgu pob disgybl yn dechrau ymateb i gynnwys Cwricwlwm i Gymru (ffocysu ar y continiwm dysgu Bl5-8).
- hyrwyddo dwyieithrwydd gweithredol yn effeithiol

**Trefniadau Cyffredinol**

Mae'r ysgol yn cyflawni'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar hyd y continiwm dysgu. Caiff ei drefnu yn y ffordd sy'n bodloni anghenion y disgyblion orau, tra'n sicrhau darpariaeth eang a chytbwys (gweler atodiad A ar gyfer cynnwys 2025/26).

Wrth gyd gynllunio gyda'r holl randdeiliaid ar gyfer Cwricwlwm i Gymru bydd Ysgol Syr Hugh Owen yn sicrhau ein bod yn mabwysiadu cwricwlwm fydd yn:

- cynnwys y chwe maes dysgu a phrofiad
- cwmpasu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
- adlewyrchu'r egwyddorion cynnydd a nodir yn y cod cynnydd
- cwmpasu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol
- cwmpasu'r elfennau gorfodol eraill, sef Crefydd, gwerthoedd a moeseg, yn ogystal ac Addysg cydberthynas a rhywioldeb

**Y Cwricwlwm Allgyrsiol (Cyfleoedd Dysgu Anffurfiol)**

Mae gan yr ysgol gwricwlwm allgyrsiol cyfoethog sy'n apelio at ddiddordebau amrywiol disgyblion ac sy'n eu caniataau i gymdeithasu a datblygu ystod eang o sgiliau personol allweddol. Cyfranna hwn hefyd at greu'r unigolyn 'cyflawn'. Ymysg y cyfleoedd sydd ar gael yn Ysgol Syr Hugh Owen mae:

- Pêl droed
- Pêl rwyd
- Hoci
- Corau
- Cerddorfa
- Clwb STEM
- Clwb Lego
- Clwb drama
- Clwb Podlediad
- Gwobr Dug Caeredin
- Ymweliadau gyda gwledydd tramor

**Monitro ac adolygu**

Corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am fonitro'r ffordd y mae'r cwricwlwm yn cael ei weithredu. Maent yn adolygu pob pwnc Cwricwlaidd bob blwyddyn.

Mae gennym lywodraethwyr wedi eu henwi i fod yn gyfrifol am gysgodi arweinyddion pynciol. Maent yn cysylltu gyda'r arweinyddion pwnc ac yn rhan o weithredu hunan arfarnu.

Mae aelodau'r UDRh yn linc i adrannau penodol, ac yn gyfrifol am sicrhau fod y Penaethiaid Adran yn dilyn gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, gwirio addasrwydd y cynlluniau gwaith a sicrhau bod darpariaeth gyfoethog ar gyfer sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau ar gyfer y disgyblion.

Mae'r arweinyddion pwnc/cydgysylltydd yn monitro'r ffordd y caiff y pwnc ei addysgu yn yr ysgol. Maent yn darparu arweiniad a chyfeiriad ar gyfer y pwnc, sicrhau bod parhad a dilyniant yn rhan o'r cynlluniau gwaith, cefnogi'r staff a chynghori ynglŷn â materion yn ymwneud â'r pwnc a monitro datblygiad y disgyblion o fewn y pwnc. Maent hefyd yn cadw portffolio o waith plant, er mwyn dangos lefelau cyraeddiadau plant o fewn y cyfnodau allweddol a dangos enghreifftiau o'r hyn a ddisgwylir.

**Atodiad A**

**Crynodeb o gwricwlwm 2021/22** (Amserlennir 30 gwers 50 munud bob wythynos)

**Blwyddyn 7**

Cymraeg (4 gwers), Saesneg (4 gwers), Mathemateg (4 gwers), Gwyddoniaeth (3 gwers), ITM (3 wers), Dyniaethau (3 gwers), Addysg Gorfforol (2 wers), Drama (1 wers), Technoleg (2 wers), Celf (1 wers), Cerdd (1 wers), Twf (2 wers)

**Blwyddyn 8**

Cymraeg (4 gwers), Saesneg (4 gwers), Mathemateg (4 gwers), Gwyddoniaeth (3 gwers), ITM (3 wers), Dyniaethau (3 gwers), Addysg Gorfforol (2 wers), Drama (1 wers), Technoleg (2 wers), Celf (1 wers), Cerdd (1 wers), Twf (2 wers)

**Blwyddyn 9**

Cymraeg (4 gwers), Saesneg (4 gwers), Mathemateg (3 gwers), Gwyddoniaeth (3 gwers), ITM (2 wers), Hanes (2 wers), Daearyddiaeth (2 wers), Addysg Grefyddol (2 wers), Addysg Gorfforol (2 wers), Drama (1 wers), Technoleg (1 wers), Tech Gwyb (1 wers), Celf (1 wers), Cerdd (1 wers), Twf (1 wers)

**Blwyddyn 10**

Cymraeg (4 gwers), Saesneg (4 gwers), Mathemateg (4 gwers), Gwyddoniaeth (6 gwers), Addysg Grefyddol (1 wers), Addysg Gorfforol (1 wers), BAC (1 wers)
Opsiwn 1 (3 gwers), Opsiwn 2 (3 gwers), Opsiwn 3 (3 gwers)

| Opsiwn 1: | Opsiwn 2: | Opsiwn 3: |
|---|---|---|
| Iechyd a Gofal | Hanes | Bwyd a Maeth |
| Celf | Cerddoriaeth | Dylunio a Thechnoleg |
| Chwaraeon | Peirianneg | Addysg Gorfforol |
| Gwyddoniaeth Driphlyg | Ffoto | Addysg Grefyddol |
| Hanes | Arlwyo | Drama |
| Trin Gwallt | | Sbaeneg |
| | Trin Gwallt | Adeiladwaith |

**Blwyddyn 11**

Cymraeg (4 gwers), Saesneg (4 gwers), Mathemateg (4 gwers), Gwyddoniaeth (6 gwers), Addysg Grefyddol (1 wers), Addysg Gorfforol (1 wers), BAC (1 wers)
Opsiwn 1 (3 gwers), Opsiwn 2 (3 gwers), Opsiwn 3 (3 gwers)

| Opsiwn 1: | Opsiwn 2: | Opsiwn 3: |
|---|---|---|
| Gwyddoniaeth Triphlyg | Addysg Gorfforol | Drama |
| Iechyd a Gofal | Cerddoriaeth | Addysg Gorfforol |
| Trin Gwallt | Bwyd a Maeth | Daearyddiaeth |
| Cerdd | Peirianneg | Arlwyo |

| | | |
|---|---|---|
| Ffoto<br>Addysg Crefyddol<br>Addysg Gorfforol<br>Chwaraeon<br>Sgiliau Gwaith<br>Adeiladwaith<br>Peirianneg Fodurol | Celf<br>Amgen<br>Hanes<br>Trin Gwallt L1/2<br>Cefn Gwlad L2<br>Gofal Anifeiliaid L2<br>Peirianneg Tir L1 | Dylunio a Thechnoleg<br>Hanes<br>Busnes |

| **Blwyddyn 12 ac 13** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pwnc opsiwn (5 gwers), Tystysgrif Her Sgiliau (3 gwers) | | | | |
| Colofn A:<br>Astudiaethau crefyddol<br>Bioleg<br>Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Gwleidyddiaeth<br>Chwaraeon<br>Ffrangeg<br>Peirianneg Mecanyddol<br>Almaeneg<br>Y Gyfraith<br>Cynllunio Gemau<br>Maths Pellach | Colofn B:<br>Cemeg<br>Drama<br>Gwyddoniaeth feddygol<br>Saesneg Llen<br>Addysg Gorfforol<br>Chwaraeon<br>Technoleg Deunyddiau<br>Peirianneg Sifil<br>Busnes<br>Daearyddiaeth | Colofn C:<br>Cerdd<br>Cymraeg<br>Ffiseg<br>Ffotograffiaeth<br>Seicoleg<br>Daearyddiaeth | Colofn D:<br>Celf<br>Iechyd a Gofal<br>Mathemateg<br>Cymdeithaseg<br>Technoleg Gwybodaeth<br>Cyfrifiadureg | Colofn E:<br>Hanes<br>Troseddeg<br>Astudiaethau Busnes |